# Rhaglen Gyflawn

**Gwasaaneth Democratieth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD LLUN, 10FED MAWRTH, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**NODER**

*I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Mawrth 3ydd 2025)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

## AELODAETH (15)

### PLAID CYMRU (10)

Y Cynghorwyr

Alan Jones Evans
Gareth Tudor Jones
Edgar Wyn Owen
Arwyn Herald Roberts
Elfed Williams
Annwen Hughes
Gwynfor Owen
Huw Rowlands
Sedd Wag x 2

Annibynnol (5)

Y Cynghorywyr

Angela Russell
John Brynmor Hughes
Gareth Williams
Anwen J. Davies
Hefin Underwood

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor.

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 11eg Tachwedd 2024 fel rhai cywir

## 5. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 7 - 15

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinnol a gynhaliwyd ar y dyddiau canlynol:

a) 17-12-24
b) 02-12-24
c) 13-11-24

## 6. ADOLYGU POLISÏAU TACSI CYNGOR GWYNEDD 16 - 23

I ystyried yr adroddiad, adolygu'r polisi yn unol â'r egwyddorion a gytunwyd yn 2017 ac er mwyn alinio gyda Safonau Cenedlaethol, ac ystyried unrhyw faterion eraill o ran cyfeiriad lefel uchel y polisi fel rhan o'r adolygiad.

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**
**11 Tachwedd 2024**

**Presenoldeb:**
Cadeirydd: Cynghorydd Elfed Williams
Is-gadeirydd: Cynghorydd Gwynfor Owen

**Cynghorwyr:** Anwen Davies, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Gareth Tudor Jones, Linda Ann Jones, Edgar Wyn Owen, Huw Rowlands, Elfed Williams (Cadeirydd), Arwyn Herald Roberts, Angela Russell a Gareth Williams

**Swyddogion:** Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Sïon Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau - Adran Gyfreithiol), Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Alan Jones Evans a'r Cyng. Hefin Underwood

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd 10fed o Fehefin 2024 fel rhai cywir

**5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Cyflwynwyd a derbyniwyd er gwybodaeth, gofnodion yr Is Bwyllgorau Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd 7fed o Fai 2024, 10fed o Fehefin, 4ydd o Fedi 2024 a'r 8fed o Hydref 2024

**6. DIRPRWYO HAWLIAU I BENDERFYNU AR GEISIADAU TRWYDDEDAU TACSI**

Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth yr Adran Amgylchedd yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried a chymeradwyo'r opsiynau ar gyfer addasu trefniadau'r cynllun dirprwyo cyfredol. Eglurwyd bod gan y Cyngor, fel Awdurdod Trwyddedu, ddyletswydd o dan y Ddeddf Cymalau Heddluoedd Trefol 1847 a'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 i drwyddedu gyrwyr a cherbydau hurio preifat a hacni, a gweithredwyr. Ategwyd ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod sicrhau bod y sawl sydd yn ymgeisio am drwydded gyrrwr/ gweithredwr, neu'n ymgeisio i adnewyddu trwydded o'r fath, yn unigolyn 'addas a phriodol' i ddal y drwydded honno. Atgoffwyd yr Aelodau mai prif bwrpas trwyddedu cerbydau, gweithredwyr a gyrwyr yw diogelu iechyd y cyhoedd. Dyma'r flaenoriaeth mae'r Cyngor wedi ei ystyried wrth fabwysiadau trefn bwrpasol i geisio cyfarch hyn.

Tynnwyd sylw at eiriad cyfredol y Cyfansoddiad sydd yn gosod trefn benodol o ran pa benderfyniadau sydd wedi eu dirprwyo i swyddogion; a pha benderfyniadau sydd yn disgyn o dan gyfrifoldebau'r Is-bwyllgor. Atgoffwyd yr Aelodau bod adroddiad wedi ei gyflwyno i bwyllgor Rhagfyr 2019 yn amlinellu'r trefniadau gydag opsiynau cychwynnol o ran adolygu'r trefniadau o ddirprwyo penderfyniadau. Yn y Pwyllgor hwnnw cytunodd yr Aelodau y dylai'r Is-bwyllgorau Trwyddedu Cyffredinol barhau i allu dyfarnu penderfyniad mewn modd gwrthrychol a rhesymegol lle mae ceisiadau o ran eu natur yn cyfiawnhau penderfyniad gan yr Is-bwyllgor. Rhoddwyd hawl i'r Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Gwasanaeth Trwyddedu ymchwilio ymhellach i gyfarch anfanteision y drefn bresennol gan sicrhau bod unrhyw addasiadau yn parhau i fod yn wydn, yn deg a thryloyw.

Adroddwyd bod trefniadau dirprwyo penderfyniadau yn amrywio o Gyngor i Gyngor a bod hyn hefyd wedi cael ei ystyried wrth adolygu'r drefn. O safbwynt Cyngor Gwynedd, ystyriwyd bod rôl bwysig gan yr Is bwyllgor i ystyried a phenderfynu car geisiadau sydd yn groes i unrhyw bolisi sydd yn weithredol ar y pryd; megis y  polisi presennol sydd yn rhoi arweiniad o ran penderfynu os yw unigolyn yn addas a phriodol i ddal trwydded gyrru tacsi (Polisi Meini Prawf Addasrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr). Nodwyd hefyd bod angen pendantrwydd clir o ran diffinio'r amgylchiadau lle dylid cyfeirio cais i'r Is bwyllgor.

Nodwyd, os bydd y Pwyllgor yn cymeradwyo'r addasiadau byddant yn cael eu cyflwyno am gymeradwyaeth derfynol gan y Cyngor Llawn fel rhan o adroddiad gan y Swyddog Monitro ar Adolygu'r Cyfansoddiad.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol gan yr aelodau:

- Croesawu'r newid – dim pwynt cyflwyno cais i is-bwyllgor heb fod angen – byddai hyn yn ysgafnhau llwyth gwaith diangen i'r is-bwyllgor ac i'r swyddogion
- Bod angen sicrhau proses desg ac agored
- Bod angen sicrhau bod yr ymgeisydd yn ymwybodol o'i hawl i apelio - angen amlygu hyn yn glir ynghyd ag amgylchiadau beth fydd yn cael ei gyfeirio at is-bwyllgor
- Bod y newidiadau yn ymateb i'r angen yn gynt – yn osgoi oediad yn y broses o aros am benderfyniad i geisiadau
- Derbyn y byddai'r Is-bwyllgor yn delio gyda'r ceisiadau mwyaf cynhennus
- Bod cydweithio gyda'r Heddlu yn allweddol i'r broses, yn arbennig yng nghyd-destun gwybodaeth am droseddau a chyflwyno tystiolaeth
- Byddai cynnal sesiwn hyfforddiant i'r aelodau yn fuddiol – cais i'r gwasanaeth holi os oes modd trefnu hyn gyda Mr J Button sydd yn cynnig Hyfforddiant Trwyddedu Arbenigol

Mewn ymateb i sylw ynglŷn ag ymgeisydd gyda hawl i apelio penderfyniad y swyddog a bod y drefn o herio'r penderfyniad hwnnw yn un priodol a theg, nodwyd bod hawl apêl gyfreithiol i Lys Ynadon eisoes yn bodoli ar bob cais, ond bod hyn yn cymryd amser. Ystyriwyd y byddai sefydlu cyfundrefn apêl i Is-bwyllgor yn gam ychwanegol, ond yn gam effeithiol; bydd angen amlygu'n amgylchiadau ac egluro'r opsiynau yn glir.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â beth yw hyd prosesu cais ac mai gorau oll fyddai ceisio lleihau amser yn y broses, nododd y Rheolwr Trwyddedu bod gan y gwasanaeth ddangosydd perfformiad sydd yn amlygu amser prosesu ceisiadau. Adroddwyd bod cyfartaledd amser y broses weinyddol bellach wedi gostwng i oddeutu 5 - 7 diwrnod ond bod ceisiadau gyda gwiriadau DBS yn arafu'r amser yn sylweddol.  Byddai gwirio a

chyfieithu adroddiadau ynghyd a threfnu Is-bwyllgor a chyhoeddi rhaglen yn ychwanegu o leiaf 3 wythnos i'r broses. Bydd y drefn dirprwyo yn sicr o leihau amser prosesu ceisiadau sydd yn unol â'r Polisi Meini Prawf Addasrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr.

**PENDERFYNWYD: Cymeradwyo diwygio'r drefn dirprwyo penderfyniadau i'r Is-bwyllgor.**

**Hawliau Dirprwyedig Pennaeth Amgylchedd: adolygu cymal 11.3.5 fel a ganlyn-**

**Gweithredu pwerau'r Cyngor ym maes trwyddedu cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat ag eithrio'r materion canlynol sydd yn gyfrifoldeb i'r Is-bwyllgor o'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol.**

- **Penderfynu ar gais am drwydded gyrrwr hacni/hurio preifat pan fydd adroddiad o'r Biwro Cofnodion Troseddol yn dangos collfarn neu rybudd heddlu, a phan fydd y cais yn groes i bolisi'r Awdurdod.**
- **Penderfynu ar gais am drwydded cerbyd hacni/hurio preifat pan na fydd y cerbyd yn cydymffurfio â pholisi'r awdurdod.**
- **Penderfynu ar gais am drwydded gweithredwr hurio preifat pan fydd adroddiad o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn dangos collfarn neu rybudd heddlu , a phan fydd y cais yn groes i bolisi'r Awdurdod.**
- **Y drefn i sicrhau fod y penderfyniad wedi ei ddirprwyo i swyddog mewn amgylchiadau lle nad yw hanes troseddol yr unigolyn, neu unrhyw fater i'w ystyried, yn groes i bolisi.**
- **Bod gan y Pennaeth ddisgresiwn o dan y Cynllun Dirprwyo i gyfeirio unrhyw gais am wrandawiad Is Bwyllgor lle mae amgylchiadau yn cyfiawnhau gwneud hynny: ni fydd y newidiadau yn effeithio ar yr hawl hynny.**

**Cyflwyno'r diwygiadau i'r Swyddog Monitro fel y gall eu cynnwys fel rhan o adroddiad 'Adolygu'r Cyfansoddiad' fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn eu cymeradwyo yn derfynol.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben am 10:40

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 17-12-24

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** **Annwen Hughes (Cadeirydd), Edgar Owen a Linda Ann Jones**

**Swyddogion:** **Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Tomos Wyn Jones (Swyddog Gwarchodaeth Gwarchod y Cyhoedd), Rhian Medi (Swyddog Cydymffurfiaeth Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)**

**Eraill a wahoddwyd:**

**Ymgeisydd Mr A**
**Cynrychiolydd / Cyflogwr Mr A**

### 1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

### 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

### 4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

### 5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â Pholisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu

- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r 'materion eraill' sydd yn gysylltiedig ag addasrwydd unigolyn i fod yn yrrwr cerbyd hacni/hurio preifat

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor wrthod y cais a hynny oherwydd nad oedd ymddygiad yr ymgeisydd mewn gwrthdrawiad diweddar yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig gan yrrwr tacsi.

Dangoswyd fideo TCC oedd yn tystiolaethu'r gwrthdrawiad.

Gwahoddwyd cynrychiolydd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y gwrthdrawiad ac amgylchiadau personol yr ymgeisydd. Nododd bod yr ymgeisydd wedi bod yn yrrwr tacsi dibynadwy ers 2010 ac nad oedd unrhyw gwyn wedi ei dderbyn ynglŷn â'i yrru. Eglurwyd, er i'r ymgeisydd adael lleoliad y ddamwain, roedd wedi gwneud hynny am resymau dealladwy ac wedi cysylltu gyda'i gyflogwr i ymdrin â'r digwyddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â pham nad oedd yr Heddlu wedi dwyn achos yn erbyn yr ymgeisydd, nodwyd er bod yr Heddlu wedi ymateb i'r digwyddiad, cafwyd cadarnhad drwy lythyr na fyddai gweithred bellach. Ategwyd, er nad oedd yr Heddlu wedi mynd ar achos yn bellach bod gan yr Is-bwyllgor, yn unol â Pholisi Trwyddedu'r Cyngor, hawl i ystyried addasrwydd person i fod yn yrrwr tacsi.

**PENDERFYNWYD nad oedd yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- Adroddiad yr Adran Drwyddedu
- Ffurflen gais yr ymgeisydd
- Datganiad DBS
- Adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- Diddymiad Trwydded Gyrrwr
- Tystiolaeth Teledu Cylch Cyfyng - TCC
- Sylwadau llafar gan gynrychiolydd yr ymgeisydd

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

**Cefndir**

Yn Awst 2024 cyflwynwyd rhybudd i'r ymgeisydd o dan adran 61 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 oedd yn diddymu trwydded gyrru tacsi'r ymgeisydd yn ddi-oed ar sail tystiolaeth TCC o wrthdrawiad.

Roedd gan yr ymgeisydd droseddau gyrru oedd yn pontio dros 10 mlynedd, gydag un mân drosedd traffig yn arwain at 3 pwynt oedd yn dal i fodoli ar ei drwydded am oryrru

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Ystyriwyd paragraff 1.5 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r os na fydd ymgeiswyr yn datgelu unrhyw gollfarnau; rhybuddion; hysbysiadau cosb, gorchmynion neu geryddon blaenorol ar eu ffurflen gais, gan gynnwys unrhyw achosion llys yn yr arfaeth neu faterion eraill, fe'i cyfeirir at sylw'r Pwyllgor Trwyddedu er mwyn gwneud penderfyniad yn eu cylch.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y Cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

**CASGLIADAU**

Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod yr ymgeisydd wedi achosi gwrthdrawiad ac er iddo aros gyda'r unigolyn i ddechrau, gadawodd leoliad y ddamwain gydag eraill yn gofalu am yr unigolyn fel bod mod iddo barhau gyda'i waith o gludo cwsmer. Ystyriwyd bod gadael lleoliad damwain yn drosedd ac nid oedd yr is-bwyllgor o'r farn bod hon yn weithred gan yrrwr tacsi cyfrifol, ac felly'n amlygu nad oedd yn berson addas a diogel i ddal trwydded yn unol â'r Polisi a Chanllawiau'r Sefydliad Trwyddedu.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 10 :00 a daeth i ben 11 :10

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 02-12-24

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** **Elfed Williams (Cadeirydd), Gareth T Jones a Gwynfor Owen**

**Swyddogion:** **Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol), Rhian Medi (Swyddog Cydymffurfiaeth Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)**

**Eraill a wahoddwyd: Eitem 5:**

**Ymgeisydd - Ms A**

### 1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

### 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

### 4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

### 5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Ms A

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â Pholisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Ms A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r collfarnau perthnasol

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor wrthod y cais a hynny oherwydd bod yr ymgeisydd wedi cronni pwyntiau'n gyflym am fwy nag un trosedd yrru yn ystod 2022-23. Fodd bynnag, awgrymwyd y dylai'r Is-bwyllgor ystyried penderfyniad y Llys Ynadon i beidio ag atal yr ymgeisydd rhag gyrru am gronni pwyntiau am y troseddau hyn.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y troseddau gyrru a'i hamgylchiadau personol. Nododd ei bod dan bwysau gan ei chyflogwr blaenorol i gwblhau teithiau mor gyflym ag y gallai fel ei bod yn cael ei thalu. Ategodd ers iddi gael y troseddau gyrru, bod ei hagwedd wedi newid, ei bod yn edifarhau ac wedi dysgu gwersi. Roedd yn hoff iawn o weithio fel gyrrwr tacsi, ac yn gweld ei rôl fel merch yn gyrru tacsi yn rhoi sicrwydd i ferched oedd yn teithio deimlo yn saff mewn tacsi. Nododd ers newid cwmni, ei bod yn teimlo'n llawer gwell ac yn cael cefnogaeth dda.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:
- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- Adroddiad yr Adran Drwyddedu
- Ffurflen gais yr ymgeisydd
- Datganiad DBS
- Adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- Manylion Hysbysiad Llys o Ddirwy a Gorchymyn Casglu
- Sylwadau llafar yr ymgeisydd

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

**Cefndir**

Yn Tachwedd 2022 derbyniodd yr ymgeisydd dri pwynt cosb am yrru'n gyflymach na'r cyfyngiad cyflymder statudol a'r ffordd gyhoeddus (SP30) h.y goryrru

Yn Gorffennaf 2023 derbyniodd yr ymgeisydd 6 pwynt cosb am yrru'n gyflymach na'r cyfyngiad cyflymder statudol a'r ffordd gyhoeddus (SP30) h.y goryrru. Derbyniodd ddirwy o £250.00. Mynychodd yr ymgeisydd y Llys i berswadio'r ynad i beidio å'i gwahardd rhag gyrru. Darbwyllwyd yr Ynadon na ddylid ei hatal rhag gyrru.

Roedd yr ymgeisydd wedi bod yn onest ac wedi cysylltu å'r Adran Drwyddedu i'w hysbysu am y pwyntiau ac am benderfyniad Llys yr Ynadon.

Nid oedd collfarnau eraill i'w hystyried

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cygor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w

(h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y Cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu’r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p’run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Ystyriwyd paragraff 13 sydd yn ymwneud a mân droseddau traffig ac fe ystyriwyd paragraff 13.3 sydd yn amlygu gall un gollfarn am fan drosedd traffig awrain at wrthod y cais yn enwedig os oes sawl collfarn i’w hysytired ar gyfer un drosedd.

**CASGLIADAU**

Ystyriwyd darpariaethau’r Polisi, esboniad yr ymgeisydd o’i amgylchiadau, ac argymhelliad y Rheolwr Trwyddedu i wrthod y cais.

Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn mai adran 13 o’r Polisi oedd yn berthnasol. Ystyriodd yr Is-bwyllgor bod gan yr ymgeisydd ddwy drosedd am oryrru a hynny o fewn wyth mis i'w gilydd, ac ymhellach fod yr ail drosedd yn un o yrru ar gyflymder o tua 103 mya tra yn y tacsi (er y derbyniwyd nad oedd teithwyr yn bresennol).

Ystyriwyd hefyd sylwadau'r ymgeisydd o fod yn difaru'r hyn a wnaeth ers derbyn yr euogfarnau. Derbyniwyd hefyd ei chyfrif gonest ac agored iawn o’r digwyddiadau a’i hamgylchiadau, yn ystod y gwrandawiad. Cydnabuwyd ei bod wedi dysgu gwersi am oryrru ac roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon na fyddai unrhyw droseddau pellach o'r fath yn digwydd.

Roedd yr Is-bwyllgor hefyd o'r farn, pan roedd yr ymgeisydd yn rhoi gwybod i’r Awdurdod ei bod wedi ennill pwyntiau ychwanegol ar ei thrwydded oherwydd y troseddau, na chymerwyd unrhyw gamau gan yr Awdurdod i ddiddymu’r drwydded a caniatawyd iddi barhau i yrru tacsi hyd nes i'r drwydded ddod i ben.

Wedi pwyso a mesur yr holl ffactorau yn ofalus, daeth yr Is-bwyllgor i benderfyniad bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat ar hyn o bryd.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai’r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i’r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 12 :10 a daeth i ben 13 :00

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 13-11-24

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** **Elfed Williams (Cadeirydd), Angela Russell ac Alan Jones Evans**

**Swyddogion:** **Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Tomos Wyn Jones (Swyddog Gwarchodaeth Gwarchod y Cyhoedd) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)**

**Eraill a wahoddwyd: Eitem 5:**

**Ymgeisydd - Mr A**
**Cynrychiolydd / Merch yr ymgeisydd**

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Dim i'w nodi

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Dim i'w nodi

3. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi

4. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

   **PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

5. **CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â Pholisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

   - Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
   - Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
   - Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
   - Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
   - Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
   - Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r collfarnau perthnasol

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor wrthod y cais. Nodwyd mai saith wythnos yn unig oedd wedi pasio ers i'r gwaharddiad trosedd traffig ffordd ddifrifol ddod i ben, ac felly anodd fyddai tystiolaethu os oedd yr ymgeisydd wedi dysgu gwersi ai peidio. Ategwyd nad oedd yr ymgeisydd wedi hysbysu'r uned drwyddedu am y drosedd ar y pryd ac roedd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd wedi derbyn tystiolaeth ddiweddar fod yr ymgeisydd wedi ceisio defnyddio ei gerbyd heb drwydded tacsi dilys.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y euogfarn a'i amgylchiadau personol. Amlygodd, am 20 mlynedd fod ganddo drwydded yrru lân a dyma'r ddamwain gyntaf iddo gael. Ategodd bod ei deulu yn ddibynnol ar incwm ei gwmni tacsi a bod y sefyllfa yn un bregus i'r teulu. Nododd ei fod yn yrrwr diogel ac yn gyfrifol am yrru plant i'r ysgol. Roedd yn erfyn am ail gyfle.

Mewn ymateb i gwestiwn pam nad oedd wedi rhoi gwybod i'r awdurdod trwyddedu am y ddamwain, nododd ei fod wedi ceisio cysylltu gyda'r uned, ond nad oedd wedi cael ateb

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â difrifoldeb y ddamwain, nododd y Rheolwr Trwyddedu bod achos y ddamwain wedi bod gerbron y Llys a bod yr ymgeisydd wedi derbyn dedfryd a chosb. Ategodd, mai pwrpas y gwrandawiad oedd penderfynu os oedd yr ymgeisydd yn addas a phriodol i dderbyn trwydded gyrrwr hacni / hurio preifat.

**PENDERFYNWYD nad oedd yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:
- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- Adroddiad yr Adran Drwyddedu
- Datganiad DBS
- Adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- Datganiad Tyst Swyddog Heddlu Traffig
- Manylion Diddymiad Trwydded Gyrrwr
- Sylwadau llafar cynrychiolydd yr ymgeisydd

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

**Cefndir**

Yn Awst 2023, cafwyd yr ymgeisydd yn euog o achosi niwed difrifol drwy yrru'n ddiofal / anystyriol yn groes i Ddeddf Traffig y Ffordd 1988 A.2C. Derbyniodd Orchymyn Cymunedol, costau o £85, gwaharddiad rhag gyrru (gorfodol am 12 mis o 31 Awst 2023), gofyniad gwaith di-dâl, gofyniad gweithgaredd adsefydlu a Gordal Dioddefwr o £114.

Yn Hydref 2023, diddymwyd trwydded hacni/hurio preifat yr ymgeisydd gan Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Gwynedd, er mwyn diogelu'r cyhoedd yn unol â darpariaeth Adran 61 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976

Methodd yr ymgeisydd i hysbysu'r Adran Drwyddedu o'r drosedd a'r euogfarn yn unol ag amodau trwydded tacsi

Yn Hydref 2024, cyfaddefodd yr ymgeisydd i Swyddog Heddlu Traffig ei fod yn gyrru tacsi heb drwydded. Derbyniodd gyngor gan y Swyddog i roi'r gorau i weithio fel gyrrwr tacsi tra bod ei drwydded yn cael ei hadolygu.

Nid oedd collfarnau eraill i'w hystyried

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y Cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae rhan 12 o'r Polisi yn ymwneud â chollfarnau moduro gyda pharagraff 12.2 yn rhestru troseddau traffig difrifol at ddibenion y Polisi. Nodir bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod (12.10) os oes cofnod o waharddiad gyrru am gyfnod o 12 mis neu fwy, oni bai bod 18 mis wedi mynd heibio ers diwedd y gwaharddiad.

**CASGLIADAU**

Ystyriwyd darpariaethau'r Polisi, esboniad yr ymgeisydd o'i amgylchiadau, ac argymhelliad y Rheolwr Trwyddedu i wrthod y cais.

Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn mai adran 12.10 o'r Polisi oedd yn berthnasol i'r cais gan fod yr ymgeisydd gydag euogfarn ddiweddar a arweiniodd at gyfnod o waharddiad 12 mis neu fwy. Nid oes dadl ynghylch yr euogfarn, er bod sylwadau am ddifrifoldeb y ddamwain wedi eu cyflwyno gan yr ymgeisydd. Er hynny, nid oedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod digon o amser wedi mynd heibio ers i'r gwaharddiad ddod i ben i gyfarch darpariaethau'r Polisi ac nid oeddynt yn ystyried bod unrhyw amgylchiadau eithriadol fyddai'n cyfiawnhau gwyro oddi wrth y Polisi.

Roedd yr is-bwyllgor hefyd wedi ystyried diffyg yr ymgeisydd o hysbysu'r uned drwyddedu o'r drosedd a'r euogfarn (am gyfnod o 12 mis) a mynegwyd pryderon difrifol bod yr ymgeisydd wedi cael ei ddal ac wedi cyfaddef, gyrru cerbyd ac yn ceisio llogi, heb drwydded tacsi dilys, mor ddiweddar â Hydref 2024.

Wedi pwyso a mesur yr holl ffactorau, daeth yr is-bwyllgor i benderfyniad nad oedd yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat ar hyn o bryd.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 3 :00pm a daeth i ben 3 :30pm

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL** |
| **DYDDIAD:** | **10 Mawrth 2025** |
| **TEITL:** | **ADOLYGU POLISÏAU TACSI CYNGOR GWYNEDD**<br>- Polisi Trwyddedu Gyrru Cerbyd Hacni/Hurio Preifat Gyfunol<br>- Polisi Trwyddedu Cerbydau Hacni/Hurio Preifat<br>- Polisi Trwyddedu Gweithredwyr Hurio Preifat<br>**-**polisi Meini Prawf Addasrwydd gyrwyr a gweithredwyr |
| **PWRPAS:** | **DIWEDDARIAD A DERBYN CEFNOGAETH Y PWYLLGOR AR ADOLYGIAD CYN YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS AR BOLISI TRWYDDEDU TACSI UNEDIG** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH ADRAN AMGYLCHEDD** |

## 1.0 GWYBODAETH GEFNDIROL

1.1 Fe gymeradwywyd y polisïau cyfredol parthed gyrwyr, cerbydau a gweithredwyr gan y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol ar 22 Hydref 2010 a daeth yn weithredol o 1 Rhagfyr 2010.

1.2 Ers 2010, mae man-newidiadau wedi eu gwneud i’r Polisi trwyddedu Gyrru Cerbyd Hacni /Hurio Preifat gyfunol yn 2014, yn ogystal ag adolygu'r polisi ‘Meini Prawf Addasrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr’

1.3 Penderfynodd y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol ar 22 Mehefin 2015 bod angen diweddaru ac adolygu'r polisïau Thrwyddedau Tacsi yn dilyn y cynnydd yn y nifer o geisiadau i drwyddedu cerbydau yn groes i’r polisi ac yn sgil y Ddeddf Dadreoleiddio 2015.

1.4 Fe gyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor hwn ar y 14 o Fedi 2015 yn amlinellu cyfeiriad lefel uchel y newidiadau arfaethedig i’r polisi; ac fe awdurdododd y Pwyllgor hwn y Pennaeth Amgylchedd i gychwyn adolygiad o’r polisïau trwyddedu mewn perthynas â Gweithredwyr , cerbydau a gyrwyr hacni a hurio preifat; a chefnogi cynigion ar gyfer cyfeiriad cyffredinol fel man cychwyn ar gyfer yr adolygiad.

1.5 Fe gofiwch fod cynnig wedi ei dderbyn i greu ‘Polisi Tacsi Cyngor Gwynedd’ sydd yn unedig , yn lle tair dogfen polisi ar wahân sydd yn bodoli’n bresennol. Fe fydd y polisi unedig hefyd yn cynnwys polisi ‘Meini Prawf Addasrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr’ canllawiau ar gyfer penderfynu os y w person yn ‘addas a phriodol’ i fod yn yrrwr neu weithredwr. Fe fydd y polisi Unedig hefyd yn cynnwys amodau trwydded a safon cerbydau.

1.6 Un o’r materion a ddaeth i’r amlwg yn ystod y cyfnod cynnar o wneud ymchwil ar gyfer adolygu’r polisïau oedd bodolaeth is-ddeddfau; nad oeddent wedi eu hamlygu yn yr adolygiad 2010 o’r polisïau tacsi; ond a gyfeiriwyd atynt yn 2003. Pwrpas yr is ddeddfau yw sicrhau amodau i drwyddedau gyrwyr cerbydau hacni. Fe dderbyniwyd cadarnhad gan yr Uned Gyfreithiol fod yr is-ddeddfau dal mewn lle; ac felly fe fydd rhaid sicrhau er trefn a chywirdeb fod y r is-ddeddfau yn cael eu cynnwys yn y polisi Tacsi unedol Newydd

1.7 Yn 2017 fe benderfynodd y Pwyllgor hwn ar gynigion lefel uchel ar gyfer newidiadau arfaethedig i’r polisïau . (gweler atodiad). Fe ddatblygwyd y cynigion ar gyfer y

newidiadau arfaethedig i'r polisïau ac amodau yn rhannol er mwyn gwireddu pwyntiau gweithredu a luniwyd yn dilyn ymarferiad Ffordd Gwynedd yn 2016

1.8 Mae'r cynigion a wnaethpwyd ar y pryd hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd gwiriadau i sicrhau fod gyrwyr tacsi yn addas a phriodol; a bod amodau newydd yn sicrhau dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth gyrwyr o bwysigrwydd diogelu plant ac oedolion bregus.

1.9 Fe fydd y polisi ac amodau gyrwyr hefyd yn cael eu diweddaru i adlewyrchu gofynion deddfwriaethol newydd gan gynnwys y Ddeddf Mewnfudo 2016 yn ogystal â'r Ddeddf Dadreoleiddio 2015; ac yn adlewyrchu'r canllawiau arfer gorau diweddaraf

1.10 Fe gytunodd aelodau'r Pwyllgor hwn fod angen cyflwyno polisi unedig sydd yn sicrhau gwasanaeth teg a chyson ar draws y Sir, a chael gwared a'r tri parth sydd wedi bodoli yn hanesyddol - er mwyn tegwch a chysondeb, ac i geisio cwrdd ag anghenion y diwydiant a defnyddwyr.

1.11 Fe fydd statws 'Hawliau Taid' perchnogion cerbydau hacni Arfon yn cael ei dynnu o'r polisi a bod holl berchnogion cerbydau hacni yn ddarostyngedig i'r un amodau a gofynion cerbyd, drwy'r sir .

1.12 Bydd yr holl berchnogion yn cael eu hannog i drwyddedu cymaint o gerbydau sy'n hygyrch i gadair olwyn y maent yn ystyried yn angenrheidiol. Fodd bynnag, bydd Cyngor Gwynedd yn gosod gofyniad bod rhaid oeliaf 1 cerbyd hacni mewn fflyd o 7 cerbyd hacni fod yn gerbyd sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Felly os yw maint y fflyd yn 14 cerbyd hacni byddai gofyn i o leiaf 2 o'r 14 cerbyd fod yn gerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn.

## 2.0 STRATEGAETH TRAFNIDIAETH CYMRU 2021 ; A'R PAPUR GWYN – Y BIL TACSI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT 2023

2.1 Fe fu i Llywodraeth Cymru gyfleu ei fwriad yn ystod 2018 i adolygu'r modd mae y diwydiant tacsi yn cael ei reoleiddio yng Nghymru; ac fe wnaethpwyd y penderfyniad gan Gyngor Gwynedd fel y rhan helaeth o awdurdodau lleol yng Nghymru ar y pryd i ohirio ymgynghori ar adolygiadau o bolisïau Trwyddedu tacsi a dileu y broses hyd nes yr oedd cyfeiriad Llywodraeth Cymru yn glir o ran unrhyw newidiadau a oedd yn yr arfaeth.

2.2 Yn 2021 fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Trafnidiaeth, a oedd yn gosod gweledigaeth mewn perthynas a rheoleiddio'r diwydiant tacsi.

2.3 Yn ddiweddarach yn 2021 , fe gyhoeddwyd Safonau Cenedlaethol ar gyfer y Diwydiant Tacsi, gyda'r bwriad o hyrwyddo cysondeb drwy Gymru o ran gofynion ar y diwydiant tacsi a gofynion er sicrhau Diogelwch y Cyhoedd a thegwch masnachol.

2.4 Yn ddiweddarach, yn 2023 fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Bapur Gwyn: Y Bil Tacsi a Cherbydau Hurio Preifat . Fe ymgynghorwyd ar Y Papur Gwyn er mwyn ceisio

barn rhanddeiliaid ar adolygu y ddeddfwriaeth mewn perthynas a rheoleiddio y diwydiant tacsi; ac er mwyn sicrhau cyflwyno safonau mandadol cyson a theg a fyddai yn sicrhau diogelwch y Cyhoedd .

2.5 Mae swyddogion adran Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru wedi amlygu wrth Panel Arbenigol Trwyddedu Cymru, (sydd yn cynnwys cynrychiolaeth o wasanaethau Trwyddedu pob Cyngor yng Nghymru) na fydd y Senedd yn symud ymlaen yn ystod ei dymor presennol i weithredu ar argymhellion deddfwriaethol sy'n deillio o'r Papur Gwyn . Yn hytrach, mae'r Awdurdodau Trwyddedu yn cael eu hannog i adolygu eu polisïau tacsi i sicrhau aliniad gyda 'r Safonau Tacsi Cenedlaethol a gyhoeddwyd yn 2021.

**3.0 NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I'R POLISIAU TACSI YNG NGWYNEDD**

3.1 Mae prosesau ac amodau Trwyddedu gyrwyr, cerbydau a gweithredwyr tacsi yng Ngwynedd eisoes yn cyd-fynd gyda y rhan helaeth o 'r disgwyliadau sydd yn y Safonau Tacsi Cenedlaethol.

3.2 Mae yna rai mesurau diogelu sydd wedi eu hychwanegu i'r broses ceisio am drwydded dros y 3 blynedd diwethaf ; ond sydd heb eu ymgorffori y n y polisi presennol eto– megis

- Sicrhau fod ymgeisydd am drwydded yn derbyn ymchwiliad meddygol i safon Grwp 2 DVLA
- Sicrhau fod gyrwyr yn gwneud Hyfforddiant Diogelu plant fel rhan o'r broses ymgeisio am drwydded
- Fod gwiriad ar system Intel troseddol cenedlaethol yn cael ei wneud ar gyfer pob cais am drwydded gyrrwr o'r Newydd

3.3 Y bwriad yw ymgorffori y mesurau hyn yn swyddogol yn y polisi unedig newydd , ac ynghyd ag unrhyw newidiadau lefel uchel sydd eisoes wedi eu cytuno gan y Pwyllgor hwn

4.0 **YMGYNGHORIAD**

4.1 Bydd y polisi unedig diwygiedig yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd y cyfnod ymgynghori ffurfiol yn 28 diwrnod. Bydd yr ymatebion i'r ddogfen ymgynghori yn cael eu hystyried yn llawn cyn i'r polisi gael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol.

4.2 Fe fydd y Pwyllgor hwn yn cael cyfle ymhen y 12 mis nesaf i roi barn ar y polisi drafft cyn unrhyw ymgynghoriad

5.0 **CASGLIAD AC ARGYMHELLIAD**

5.1 Bwriedir newid y polisïau Trwyddedu presennol er mwyn gallu darparu gwasanaeth cyson a theg ar draws y sir ac sy'n cwrdd ag anghenion y diwydiant a defnyddwyr – gan gadw ystyriaethau diogelwch yn sylfaen creiddiol i gyfeiriad y polisi.

5.2 Gofynnir am gymeradwyaeth yr aelodau i adolygu y polisi yn unol a'r egwyddorion a gytunwyd yn 2017, ac er mwyn alinio gyda Safonau cenedlaethol.

5.3 Gofynnir hefyd am farn yr Aelodau os oes angen cyfarch unrhyw faterion eraill o ran cyfeiriad lefel uchel y polisi fel rhan o'r adolygiad.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL** |
| **DYDDIAD:** | **11 MEDI 2017** |
| **TEITL:** | **ADOLYGU POLISÏAU TACSI CYNGOR GWYNEDD**<br>- Polisi Trwyddedu Gyrru Cerbyd Hacni/Hurio Preifat Gyfunol<br>- Polisi Trwyddedu Cerbydau Hacni/Hurio Preifat<br>- Polisi Trwyddedu Gweithredwyr Hurio Preifat |
| **PWRPAS:** | **DIWEDDARIAD A DERBYN CEFNOGAETH Y PWYLLGOR AR GYFEIRIAD YR ADOLYGIAD CYN YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS AR BOLISI TRWYDDEDU TACSI UNEDIG** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH ADRAN AMGYLCHEDD** |

**1.0 GWYBODAETH GEFNDIROL**

1.1 Fe gymeradwywyd y polisïau cyfredol parthed gyrwyr, cerbydau a gweithredwyr gan y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol ar 22 Hydref 2010 a daeth yn weithredol o 1 Rhagfyr 2010.

1.2 Ers 2010, mae man-newidiadau wedi eu gwneud i'r Polisi trwyddedu Gyrru Cerbyd Hacni /Hurio Preifat gyfunol yn 2014, yn ogystal ag adolygu'r polisi 'Meini Prawf Addasrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr'

1.3 Penderfynodd y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol ar 22 Mehefin 2015 bod angen diweddaru ac adolygu'r polisïau Thrwyddedau Tacsi yn dilyn y cynnydd yn y nifer o geisiadau i drwyddedu cerbydau yn groes i'r polisi ac yn sgil y Ddeddf Dadreoleiddio 2015.

1.4 Fe gyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor hwn ar y 14 o Fedi 2015 yn amlinellu cyfeiriad lefel uchel y newidiadau arfaethedig i'r polisi; ac fe awdurdododd y Pwyllgor hwn y Pennaeth Rheoleiddio i gychwyn adolygiad o'r polisïau trwyddedu mewn perthynas â Gweithredwyr , cerbydau a gyrwyr hacni a hurio preifat; a chefnogi cynigion ar gyfer cyfeiriad cyffredinol fel man cychwyn ar gyfer yr adolygiad

1.5 Fe nodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor hwn ar y 1af o Ragfyr 2015 fod y Cabinet wedi derbyn adroddiad ar y sefyllfa ;ac yn cytuno gyda'r egwyddorion a'r cyfeiriad cyffredinol; a bod angen cysoni'r polisïau cyfredol.

1.6 Fe gofiwch fod cynnig wedi ei dderbyn i greu 'Polisi Tacsi Cyngor Gwynedd' sydd yn unedig , yn lle tair dogfen polisi ar wahân sydd yn bodoli'n bresennol. Fe fydd y polisi unedig hefyd yn cynnwys polisi 'Meini Prawf Addasrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr' canllawiau ar gyfer penderfynu os y w person yn 'addas a phriodol' i fod yn yrrwr neu weithredwr. Fe fydd y polisi Unedig hefyd yn cynnwys amodau trwydded a safon cerbydau.

1.7 Un o'r materion a ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfnod cynnar o wneud ymchwil ar gyfer adolygu'r polisïau oedd bodolaeth is-ddeddfau; nad oeddent wedi eu hamlygu yn yr adolygiad 2010 o'r polisïau tacsi; ond a gyfeiriwyd atynt yn 2003. Pwrpas yr is ddeddfau yw sicrhau amodau i drwyddedau gyrwyr cerbydau hacni. Fe dderbyniwyd cadarnhad gan yr Uned Gyfreithiol fod yr is-ddeddfau dal mewn lle; ac felly fe fydd rhaid sicrhau er trefn a chywirdeb fod y r is-ddeddfau yn cael eu cynnwys yn y polisi Tacsi unedol newydd

## 2.0 NEWIDIADAU ARFAETHEDIG LEFEL UCHEL I'R POLISÏAU AC AMODAU - GYRRWR

2.1 Ni ragwelir y bydd unrhyw newidiadau dadleuol i ofynion polisi presennol neu amodau **GYRWYR** na **GWEITHREDWYR HURIO PREIFAT**.Mae'r newidiadau yn pwysleisio pwysigrwydd gwiriadau i sicrhau fod gyrrwr yn berson 'ffit a phriodol' a hefyd fod amodau newydd yn sicrhau dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth gyrwyr o bwysigrwydd diogelu plant ac oedolion bregus.

2.2 Yn 2016 fe fu i brosesau'r Uned Trwyddedu fynd trwy ymarferiad adolygiad Ffordd Gwynedd - ac fe fydd y polisi ac amodau perthnasol arfaethedig yn dilyn egwyddorion Ffordd Gwynedd ac yn gwireddu pwyntiau gweithredu a luniwyd yn dilyn yr ymarferiad.

2.3 Fe fydd y polisi ac amodau gyrrwyr hefyd yn cael eu diweddaru i adlewyrchu gofynion y Ddeddf Mewnfudo 2016 yn ogystal â'r Ddeddf Dadreoleiddio 2015; ac yn adlewyrchu'r canllawiau arfer gorau diweddaraf

## 3.0 NEWIDIADAU ARFAETHEDIG LEFEL UCHEL I'R POLISÏAU AC AMODAU - CERBYDAU

3.1 Fe dderbyniwyd y cynnig i newid y Polisi Trwyddedu **CERBYDAU HACNI/HURIO PREIFAT** i adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth a'r newidiadau mewn galw gan y diwydiant tacsis mewn perthynas â cherbydau. Ar hyn o bryd, oherwydd natur y polisïau presennol, mae amodau yn amrywio yn ddibynnol ar ba ardal y gwneir y cais. Er enghraifft , mae'n rhaid i gerbyd hacni fod o dan 3 oed ar gais am drwydded o'r newydd yn Arfon, ond o dan 6 oed ar gais cyntaf ym Mharth Dwyfor neu Meirionnydd.

3.2 Fe gytunodd aelodau'r Pwyllgor hwn fod angen cyflwyno polisi unedig sydd yn sicrhau gwasanaeth teg a chyson ar draws y Sir. Cynigir bod y polisi unedig yn sicrhau gwasanaeth cyson a theg ar draws y sir i geisio cwrdd ag anghenion y diwydiant a defnyddwyr a bydd yn helpu i gyflawni amcanion allweddol Ffordd Gwynedd.

3.3 Mae'r Uned Drwyddedu , yn dilyn arweiniad cyfreithiol , wedi bod yn caniatáu gwiriad oddi wrth y polisi ar rhai materion megis oedran cerbyd ers Medi 2012 , pan fod cais yn cael ei dderbyn gyda thystiolaeth ddigonol i gyfiawnhau gwiriad o'r polisi. Yn ystod y cyfnod xxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxrhoddwyd cyfanswm o xxx 'Trwydded Newydd' yn groes i'r polisi i gerbydau oedd ddim yn cwrdd â'r gofynion mewn un ffordd neu arall. Mae felly yn amlwg nad yw'r gofynion cerbyd a nodir yn y polisi presennol yn adlewyrchu gofynion y diwydiant; ac amgylchiadau economaidd . Y brif flaenoriaeth fydd yn llywio unrhyw gymal polisi newydd yw diogelwch y cyhoedd, ac ni fydd 'Hawliau Taid' deilydd trwydded mwyach yn cael effaith ar ganlyniad y penderfyniadau i ganiatáu ceisiadau am drwyddedau cerbyd.

3.4 Cymerir y cyfle i atgoffa aelodau'r pwyllgor hwn fod y cynigon lefel uchel sydd yn llywio'r polisi newydd fel a ganlyn -

3.5 **Cynnig 1:** Fe fydd statws 'Hawliau Taid' perchnogion cerbydau hacni Arfon yn cael ei dynnu o'r polisi a bod holl berchnogion cerbydau hacni yn ddarostyngedig i'r un amodau a gofynion cerbyd.

3.6 Fe fydd y gofynion ar gyfer holl gerbydau ym mhob parth yn cael eu cysoni er mwyn creu polisi tryloyw, cyfartal a perthnasol i holl berchnogion cerbydau tacsi ar draws y sir.

3.7 **Cynnig 2:** Ym mhob parth, rhaid cais i drwyddedu cerbyd am y tro cyntaf fel Cerbyd Hacni neu Gerbyd Hurio Preifat fod mewn perthynas â cherbyd sy'n llai na 6 mlwydd oed ar y dyddiad pan fydd y cais cyflawn wedi ei dderbyn gan yr Awdurdod Trwyddedu.

3.8 **Cynnig 3**: Ym mhob parth, rhaid cais i adnewyddu trwydded Cerbyd Hacni neu Gerbyd Hurio Preifat fod mewn perthynas â cherbyd sy'n llai na 12 mlwydd oed ar y dyddiad pan ddaw'r drwydded gyfredol i ben.

3.9 **Cynnig 4**: Bydd Cyngor Gwynedd yn caniatáu adnewyddu trwydded Cerbyd Hacni neu Gerbyd Hurio Preifat y tu hwnt i'r terfyn oedran uchaf o 12 mlynedd os gellir dangos bod y cerbyd mewn 'cyflwr eithriadol' da. Fe fydd disgwyl i berchennog cerbyd ddarparu tystiolaeth reolaidd o addasrwydd a diogelwch y cerbyd.

3.10 **Cerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn.** Yn hanesyddol mae'r canran o gerbydau hacni sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn wedi bod yn 13%. , a gellir cadarnhau fod y canran yn parhau i fod yn 13%

3.11 Bydd y Cyngor yn ceisio cynnal y gymhareb bresennol o 13% o gerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn.

3.12 **Cynnig 5:** Bydd yr holl berchnogion yn cael eu hannog i drwyddedu cymaint o gerbydau sy'n hygyrch i gadair olwyn y maent yn ystyried yn angenrheidiol. Fodd bynnag, bydd Cyngor Gwynedd yn gosod gofyniad bod rhaid oeliaf 1 cerbyd hacni mewn fflyd o 7 cerbyd hacni fod yn gerbyd sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Felly os yw maint y fflyd yn 14 cerbyd hacni byddai gofyn i o leiaf 2 o'r 14 cerbyd fod yn gerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn.

**3.13** Rhagwelir bydd Cynigion 1 - 5 yn cael eu hystyried fel newidiadau dadleuol i'r polisi cyfredol ac amodau trwyddedau Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat gan rhai perchnogion neu ddefnyddwyr, yn enwedig yn ardal Arfon. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn 2016 wedi bod trwy ymarferiad 'Ffordd Gwynedd' trylwyr; ac yn unol â chasgliadau'r ymarferiad credir y bydd dinasyddion Gwynedd, gan gynnwys y diwydiant tacsis ac ymwelwyr i'r Sir yn derbyn gwasanaeth tecach, effeithlon a chyson drwy wireddu'r newidiadau.

**3.14**

4.0 **YMGYNGHORIAD**

4.1 Bydd y polisi unedig diwygiedig yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd y cyfnod ymgynghori ffurfiol yn 28 diwrnod. Bydd yr ymatebion i'r ddogfen ymgynghori yn cael eu hystyried yn llawn cyn i'r polisi gael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol.

5.0 **CASGLIAD AC ARGYMHELLIAD**

5.1 Bwriedir newid y polisïau Trwyddedu presennol er mwyn allu darparu gwasanaeth cyson a theg ar draws y sir ac sy'n cwrdd ag anghenion y diwydiant a defnyddwyr ac yn adlewyrchu egwyddorion Ffordd Gwynedd.

5.2 Gofynnir am farn yr Aelodau ar y newidiadau lefel uchel a chyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad hwn ac yn benodol ar y bwriad o greu Polisi Trwyddedu Tacsi unedig, a'r Cynigion 1 - 5 a ddisgrifir. Rhoddir hefyd y cyfle i aelodau'r Pwyllgor benderfynu os oes angen cyfarch unrhyw faterion eraill o ran cyfeiriad lefel uchel y polisi cyn i'r polisi draft gychwyn ar ymgynghoriad ffurfiol.